# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 2**

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Pwysau trethadwy deunydd*

**18 Pwysau trethadwy deunydd mewn gwarediad trethadwy**

(1) Mewn perthynas â phwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig—

(a) rhaid i weithredwr y safle lle y gwneir y gwarediad trethadwy ei gyfrifo;

(b) caiff ACC ei gyfrifo os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

(2) Mae'r pwysau trethadwy i'w gyfrifo—

(a) yn unol ag adran 19, os y'i cyfrifir gan y gweithredwr;

(b) yn unol ag adran 22, os y'i cyfrifir gan ACC.

(3) Pwysau trethadwy'r deunydd at ddibenion adran 14(2) a (5)—

(a) pan na fo ffurflen dreth wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â'r gwarediad, a

(b) pan fo ACC—

(i) yn cyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd, a

(ii) yn cymhwyso'r canlyniad wrth ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr mewn cysylltiad â'r gwarediad,

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 18. (See end of Document for details)*

yw'r pwysau trethadwy a gyfrifir gan ACC, oni bai bod y gweithredwr yn cymryd y camau a nodir yn is-adran (4) wedi hynny.

(4) Pan fo'r gweithredwr—

(a) yn cyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd, a

(b) yn cymhwyso'r canlyniad wrth ddychwelyd neu ddiwygio ffurflen dreth mewn cysylltiad â'r gwarediad,

pwysau trethadwy'r deunydd at ddibenion adran 14(2) a (5) yw'r pwysau trethadwy a gyfrifir gan y gweithredwr, oni bai bod ACC yn cymryd y camau a nodir yn is-adran (5) wedi hynny.

(5) Pan fo ACC—

(a) yn cyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd ar ôl i ffurflen dreth gael ei dychwelyd mewn cysylltiad â'r gwarediad, a

(b) yn cymhwyso'r canlyniad wrth ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr mewn cysylltiad â'r gwarediad,

pwysau trethadwy'r deunydd at ddibenion adran 14(2) a (5) yw'r pwysau trethadwy a gyfrifir gan ACC, oni bai bod y gweithredwr yn cymryd y camau a nodir yn is-adran (4) wedi hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 18 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 18.